Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ADRAN:** Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Gwasanaethau Darparwyr – Cymorth yn y Cartref / Tŷ Cwm Ogwr

**SWYDD:** Gweithiwr Gofal Cymdeithasol

**GRADD Y SWYDD:** GR05

**YN ATEBOL I'R:** Rheolwr Preswyl

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Darparu gofal a chymorth i bobl hŷn sy'n byw mewn cartref gofal preswyl ym Mwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Hyrwyddo a galluogi annibyniaeth ac annog defnyddwyr gwasanaeth i wneud dewisiadau hyddysg yn unol â'u Cynllun Gofal a'u Cynlluniau Darparu Gwasanaeth.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn unol â'u cynllun gofal a'u hasesiadau risg.
- Cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd sy'n eu galluogi, gyda thasgau gofal personol a fydd yn cynnwys ymolchi, mynd i'r toiled a gwisgo, a thasgau gofal nad ydynt yn bersonol yn ôl yr angen, yn unol â'u cynlluniau gofal a darparu gwasanaeth.
- Hyrwyddo a galluogi annibyniaeth ac annog defnyddwyr gwasanaeth i wneud dewisiadau hyddysg.
- Mynd ati i ddilyn cynllun datblygu personol.
- Cymryd rhan wrth lunio cynlluniau darparwr/gwasanaeth ac asesiadau risg i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Rhoi'r cynlluniau darparwr/gwasanaeth ac asesiadau risg ar waith i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cefnogi a'u cynorthwyo wrth roi meddyginiaeth ragnodedig yn unol â pholisïau/gweithdrefnau meddyginiaeth y gyfarwyddiaeth.
- Cymryd cyfrifoldeb am fod yn ymwybodol o safonau, polisïau a gweithdrefnau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'u dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys iechyd a diogelwch, asesu risg a chodau ymddygiad Cyngor Gofal Cymru.
- Paratoi a gweini byrbrydau sylfaenol yn unol â rheoliadau hylendid bwyd.
- Cwblhau gwaith papur priodol yn ôl yr angen i gynnwys cyfrifoldebau dirprwyedig, e.e. arweinydd sifft ar ddyletswydd.

- Cymryd rhan lawn yn y rota.
- Cymryd rhan mewn datblygiad personol parhaus a chyfrannu ato drwy hyfforddiant, goruchwyliaeth ac arfarniad fel y nodir gan eich rheolwr llinell.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodi troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Gofal Cymdeithasol

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysgwyd i City and Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a City and Guilds Lefel 2 Ymarfer (Oedolion) neu City and Guilds Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) neu gymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan Gofal Cymdeithasol Cymru neu'n barod i ymgymryd â hyfforddiant i gyflawni'r dyfarniad.<br>• Pasbort Codi a Chario Cymru Gyfan (Symud Pobl).<br>• Tystysgrif Hylendid Bwyd Sylfaenol). | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phobl hŷn ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnal hawliau cleientiaid: dewis, urddas, cyfrinachedd.<br>• Profiad o arferion codi a chario.<br>• Profiad o roi meddyginiaeth.<br>• Ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn y gweithle.<br>• Gwybodaeth am gymorth cyntaf. | Ydy<br><br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu ffurfio perthynas waith adeiladol â chydweithwyr | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol parhad** | • Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Gallu cysylltu â'r grŵp cleientiaid. Gallu dangos parch ac agwedd anfeirniadol. | Ydy | |
| | • Gallu gweithio mewn tîm ac yn ôl eich menter eich hun. | Ydy | |
| | • Gallu blaenoriaethu. | Ydy | |
| | • Hyblyg, llawn cymhelliant a brwdfrydig. | Ydy | |
| | • Ymrwymiad i ddatblygiad personol. | | |
| | • Mae'r gallu i gyfarch cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r gofynion ar gyfer y swydd hon | | |